

**DATBLYGIAD CYNIGION CYSYNIAD AR GYFER –
ACADEMI HWYLIO GENEDLAETHOL CYMRU A CHANOLFAN DDIGWYDDIADAU
YM MHWLLHELI**

Cyflwyniad

Ers datblygiad yr Hafan yn y 1990au cynnar, mae Pwllheli wedi esblygu yn un o brif leoliadau hwylio gorllewin Prydain. Gyda mynediad bron ar bob adeg o'r llanw, mae'n cynnig porth i ddyfroedd hwylio Bae Tremadog sy'n cael eu hystyried ymysg y gorau yn y byd.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer sylweddol o gystadlaethau llwyddiannus ar lefel genedlaethol a rhyngwladol wedi eu cynnal ym Mhwllheli, gan godi ei broffil rhyngwladol ag amlygu ei bwysigrwydd presennol ynghyd â photensial i'r dyfodol fel canolfan digwyddiadau hwylio bwysig iawn. Er enghraifft, fe ystyrir Pwllheli fel un o dair lleoliad yn unig drwy'r Deyrnas Unedig sydd yn addas i gynnal digwyddiadau mawr ar gyfer dingis (cychod bach).

Yn seiliedig ar lwyddiant Pwllheli, cafodd cyfleoedd cychwynnol eu hadnabod mewn perthynas â datblygu Academi Hwyllo a Chanolfan Ddigwyddiadau fyddai'n adeiladu a manteisio ar gryfderau'r ardal er mwyn ymateb i anghenion economaidd a chymdeithasol ehangach, megis :

- Adeiladu ar fuddsoddiadau a llwyddiannau morwrol Pwllheli a'i sefydlu fel canolfan hwylio rhyngwladol gyda chyfleusterau pwrpasol i ddenu a chynnal cystadlaethau o'r safon uchaf
- Uchafu'r budd economaidd o ddenu cystadlaethau, digwyddiadau a chychod teithiol i'r ardal
- Hyrwyddo gweithgareddau hwylio ar bob lefel gallu a chymhwyster, drwy gynnig cyrsiau, hyfforddiant a digwyddiadau i gynnwys pawb, gan gynnwys rhai gyda anawsterau
- Hyrwyddo ac annog defnydd o'r iaith Gymraeg ym mhob agwedd o'i weithgareddau
- Darparu adnodd i'r gymuned i'w defnyddio, er enghraifft drwy ddarparu cyfleusterau a fyddai'n galluogi ysgolion gynnwys hwylio a gweithgareddau dŵr fel rhan o'u gweithgareddau awyr agored

Yn 2007, fe sefydlwyd Grŵp Technegol er mwyn pwyso a mesur wahanol faterion, heriau, cyfleon a chyfyngiadau fyddai'n yn wynebu cynllun o'r fath. Mae'r Grŵp Technegol yn cynnwys cynrychiolaeth o'r canlynol :

- Cyngor Gwynedd
- Clwb Hwyllo Pwllheli
- Coleg Meirion Dwyfor
- Chwaraeon Dŵr Gogledd Cymru;
- Plas Menai
- Cymdeithas Hwyllo Cymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cefndir – Astudiaeth Dichonoldeb Gychwynnol

Fel cam cyntaf fe baratowyd asesiad dichonolrwydd mewn perthynas â phrif agweddau o'r cynllun oherwydd cyfyngiadau technegol ac amgylcheddol fyddai'n ystyriaethau allweddol i ddatblygiad o'r fath. Fe baratowyd yr asesiad yma ar ffurf Astudiaeth Effaith Siltio ac Afon oedd yn cynnwys archwiliad o wely'r harbwr. Fe baratowyd yr asesiad gan gwmni Mouchel Parkman, Ymgynghorwyr Peirianeg Sifil, gyda chymorth ariannol gan Lywodraeth Cenedlaethol Cymru.

Dangosodd yr archwiliad mai'r prif ddeunydd fyddai angen ei garthu o'r harbwr ar gyfer gwaith cyfalaf fyddai tywod a graean gyda chyfran llai o glai. Er fod posibilrwydd wedi ei nodi y gallai sianel dŵr isel yr Afon Erch newid ei chwrs ar draws y blaendraeth, casgliad yr adroddiad oedd na fyddai unrhyw gynnydd mewn siltio o'r Afon Erch na'r Afon Rhyd-gir yn debygol. Bu i'r adroddiad hefyd gadarnhau, pe byddai angen, byddai modd ymgorffori gwaith trin afon er mwyn atal y sianel newid ei chwrs.

Casgliad yr astudiaeth gychwynnol felly oedd y byddai datblygiad ar raddfa gyfyngedig i'r gogledd o'r Hafan yn ymarferol gan gymryd i ystyriaeth cyfyngiadau technegol ac amgylcheddol.

Datblygiad Cynigion Cysyniad

Yn 2007, fe benodwyd tîm proffesiynol gan Gyngor Gwynedd, gyda chymorth ariannol gan Lywodraeth Cenedlaethol Cymru, i gwblhau astudiaeth fyddai'n cynnwys paratoi cynigion cysyniad ar gyfer Academi Hwyllo Genedlaethol Cymru a Chanolfan Ddigidwyddiadau ym Mhwlheli.

Mae Marina Projects Ltd yn arwain y tîm sy'n cynnwys Morgan Carey Architects ac ymgynghorwyr trafniadaeth Peter Brett Associates ar astudiaeth sy'n ymestyn o ddatblygu datganiad o weledigaeth ac amcanion, hyd at adnabod cysyniad ffafredig a pharatoi canllaw dylunio a chynllun busnes amlinellol.

Pwrpas yr Arddangosfa

Pwrpas yr arddangosfa yma yw cynnig diweddariad ar y gwaith sydd wedi ei wneud gan yr ymgynghorwyr hyd yma; i gynnig gwybodaeth am gynigion cynhwynol; ac amlinellu camau nesaf o'r astudiaeth.

Y broses hyd yma

Mae'r tîm Proffesiynol hyd yma wedi paratoi archwiliad manwl o'r safle, ac wedi casglu ac asesu gwybodaeth er mwyn cael dealltwriaeth lawn o'r sefyllfa bresennol. Mae'r tîm hefyd wedi edrych ar brosiectau ymarfer da eraill gan gynnwys Clwb Hwyllo Hayling Island, Plas Menai ac Academi Hwyllo Weymouth & Portland. Bu ymgynghoriad gyda wahanol grwpiau

Ileol er mwyn adnabod barn a dyheadau nifer o hapddalwyr allweddol yn enwedig mewn perthynas ag adnabod :

- Cyfyngiadau perthnasol i'r datblygiad
- Cyfleoedd yn deillio o brosiect o'i fath
- Dyheadau ar gyfer y prosiect
- Polisi – yn cynnwys materion cyfoes a chefnogaeth
- Dadansoddiad o'r farchnad hamdden forwrol leol

Yn ogystal a gosod y cyd-destun ar gyfer yr astudiaeth a sefydlu'r gwaelodlin, mae hyn hefyd wedi arwain at ddatblygu Datganiad o Weledigaeth ac Amcanion ar gyfer y prosiect.

Datganiad o Weledigaeth

Gweledigaeth y cynllun yw creu Academi Hwyllo Cenedlaethol Cymru a Chanolfan Ddigwyddiadau fyddai'n uchafu'r potensial a gynnigir gan leoliad naturiol a dyfroedd hwyllo arbennig sydd i'w canfod o amgylch Pwllheli. Bydd y cyfleusterau yn datblygu ac yn adeiladu ar enw da presennol y lleoliad, ac yn cadarnhau statws Pwllheli fel lleoliad hwyllo dingi rhyngwladol.

Fel Canolfan Ragoriaeth ar gyfer hyfforddiant hwyllo, bydd yn cynnig cyfleusterau o'r radd flaenaf ar gyfer hwylwyr o bob safon a gallu. Yn ychwanegol i gynnal digwyddiadau dingis cenedlaethol a rhyngwladol, bydd y cyfleusterau hefyd yn darparu ar gyfer digwyddiadau cychod cilbren, regatas hwyllo a gweithgareddau chwaraeon dŵr eraill.

Bydd y cyfleuster yn arddangos hunaniaeth arbennig drwy hyrwyddo'r iaith a diwylliant Cymraeg. Ymhellach, drwy gyfranogiad ar y cyd, bydd y cyfleuster yn gynladwy ac yn creu budd economaidd tymor hir i gymunedau lleol, a bydd ei swyddogaeth aml-bwrpas yn darparu ar gyfer defnydd y gymuned leol, busnesau, ysgolion a darparwyr hyfforddiant eraill.

Bydd y Ganolfan yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad Harbwr Pwllheli ac yn cydweddu gyda Hafan Pwllheli drwy ddarparu angorfeydd newydd a chyfleusterau ar y tir i hwylwyr sydd yn ymweld.

Amcanion

Pwrpas yr astudiaeth yma yw datblygu cynnigion cysyniad ac argymell strategaeth weithredu ar gyfer datblygiad Academi Hwyllo Cenedlaethol Cymru a Chanolfan Digwyddiadau. Yn sgil y data cefndirol a gasglwyd hyd yma, bwriad yr amcanion isod yw datblygu ac adeiladu ar yr amcanion craidd a sefydlwyd ym mrieff yr astudiaeth. Caiff yr amcanion hyn eu mireinio wrth i'r astudiaeth fynd yn ei flaen, a'r bwriad fyddai eu defnyddio mewn unrhyw waith pellach i'r dyfodol e.e. dylunio manwl a pwrcasu

Wrth ddatblygu'r cynnigion cysyniad bydd angen i'r gwaith ystyried y weledigaeth ynghyd a'r amcanion isod :

1. Bydd angen i'r cyfleuster ddarparu ar gyfer amrediad o weithgareddau yn cynnwys:

- ***Digwyddiadau, pencampwriaethau a regatas***
- ***Hyfforddi sgwad dingi elitaidd***
- ***Digwyddiadau hyfforddi ieuencid***
- ***Cyfleusterau angorfeydd a chyfleusterau cysylltiol ar gyfer ymwelwyr***
- ***Hyfforddiant a digwyddiadau ar gyfer rhai gyda anableddau***
- ***Diddordebau wedi eu harwain gan y gymuned***
- ***Gweithgareddau dŵr eraill***
- ***Diddordebau awyr-agored, hyfforddiant ac addysg***
- ***Cynhadleddau, seminarau a chyfarfodydd***

2. Mae'n hanfodol i'r dyluniadau cysyniad ystyried yr isadeiledd a'r cyfleusterau angenrheidiol i alluogi amrediad o weithgareddau gael eu cwblhau yn llwyddiannus ac i gyrraedd neu ragori disgwyliadau;

3. Adnabod y cyfyngiadau sydd yn bodoli ar y safle ac wrth geisio uchafu cyfleon i wella, datblygu neu leddfu y rhain. Mae'r cyfyngiadau hyn yn cynnwys (ond ddim yn gyfyngedig i) y canlynol:

- ***Cyfyngiadau ar ddyfnder dŵr mynediad Harbwr Pwllheli***
- ***Dynodiadau amgylcheddol***

- **Gorlifdir**
 - **Llwybr Mynediad (yn cynnwys mynediad cyhoeddus)**
4. **Datblygu cyfleusterau sydd yn gynaliadwy yn gymdeithasol ac economaidd drwy ddarparu digwyddiadau a gweithgareddau amrywiol; .**
 5. **Hanfodol fod y dyluniadau yn ystyried yr angen i'r cyfleusterau fod yn addas ar gyfer anghenion gofodol gwahanol a materion tymhorol.**
 6. **Y gallu i fod yn addas ar gyfer pob lefel o hwyllo, o'r sgwadiau elitaidd i ddechreuwyr a rhai gyda anhawsterau.**
 7. **Annog a hwyluso pobl ifanc i hwyllo.**
 8. **Uchafu'r budd economaidd i Pen Llŷn gyda ffocws arbennig ar ardal Glan y Don, tref Pwllheli a'r sector forwrol. Yn arbennig bydd hyn drwy ddatblygu digwyddiadau, cystadlaeuthau a gweithgareddau, gan adeiladu ar lwyddiant Hafan Pwllheli, drwy gyflwyno angorfeydd ychwanegol i ymwelwyr.**
 9. **Creu budd drwy ddarpariaeth a chyfleusterau addysg a hyfforddiant.**
 10. **Cryfhau'r cyswllt ffisegol ac anuniongyrchol gyda chanol tref Pwllheli.**
 11. **Ystyried a gwneud y defnydd gorau o'r isadeiledd ac adeiladau presennol ar benrhyn Glan y Don.**
 12. **Ychwanegu gwerth ac integreiddio gyda chyfleusterau sydd yn bodoli eisoes gan Blas Menai.**
 13. **Adeiladu ar weithgareddau presennol a llwyddiannus sydd ym Mhwllheli.**
 14. **Hyrwyddo ac annog y defnydd o'r iaith Gymraeg drwy gyfleusterau addysgol yn darparu hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg, yn cynnwys hyfforddiant gan ac i hyfforddwyr Cymraeg.**
 15. **Cyfleuster i'w ddylunio i gyrraedd amcanion datblygu cynladwy wedi eu gosod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn cynnwys rhagoriaeth BREEAM a carbon niwtral.**
 16. **Datblygu cyfleuster a fydd yn ffocws ar gyfer gweithgareddau yn codi o themau, strategaethau ac agenda allweddol a gaiff eu hyrwyddo gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill yn cynnwys:**
 - **Tŵf a datblygiad y sector morwrol**
 - **Cymru'n Un**

- *Cymru: Economi yn Ffynnu*
- *Dringo'n Uwch Strategaeth a Chynllun Gweithredu*
- *Regata Cymru*
- *Her Iechyd Cymru*
- *Agenda Twristiaeth – Croeso Cymru*
- *Iaith Pawb - Strategaeth yr Iaith Gymraeg*
- *Cynllun Gofodol Cymru*
- *Dal y Don – Strategaeth Chwaraeon Dŵr i Gymru*
- *Dechrau Byw'n Wahanol*
- *Datblygiad y cwricwlwm cenedlaethol – yr angen i gynyddu lefel gweithgaredd awyr agored ar gyfer holl blant ysgol, a mentrau eraill i gyflwyno hwylio a gweithgareddau dŵr fel rhan o'r cwricwlwm*

17. Darparu adnodd ar gyfer amrediad o ddefnyddiau cymunedol yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i:

- *Clybiau gweithgareddau dŵr eraill*
- *Clybiau Cymunedol*
- *Digwyddiadau a chynhadledau*
- *Cyfleusterau addysg a hyfforddiant*

Datrysiadau Dylunio Amrywiol

Yng nghyd-destun y Datganiad o Weledigaeth & Amcanion mae ystod o ddatrysiadau dylunio amrywiol wedi eu llunio. Mae'r datrysiadau hyn yn amrywio o "Gwneud Dim", i ystyried ymestyn cyfleusterau presennol Clwb Hwyllo Pwllheli, hyd at greu adnodd newydd pwrpasol ar wahanol leoliadau ar Glan y Don. Fe aseswyd pob un o'r datrysiadau dylunio amrywiol yn erbyn Datganiad o Welediaeth a'r Amcanion, gan arwain at gysyniad ffafriedig.

Cyfleoedd & Manteision

O'r gwaith sydd wedi ei wneud hyd yma, mae'n amlwg fod cyfle'n bodoli i adeiladau ar lwyddiant gweithgaredd digwyddiadau sy'n cymryd lle ym Mhwllheli a bod potensial yma i'w gadarnhau fel lleoliad ar gyfer digwyddiadau o statws rhyngwladol.

Mae'r gweithgareddau presennol yn seiliedig ar fanteision a gynnigir gan yr ardal o'i gwmpas, gan cynnwys y gosodiad naturiol a'r dyfroedd hwylio arbennig sydd ar gael. Agwedd allweddol o'r opsiwn ffafriedig yw'r defnydd a wneir o'r manteision naturiol hyn, a fyddai'n hanfodol os yw'r cynllun am fod yn gynladwy, ac os yw'r cyfleoedd ychwanegol a gynnigir gan y cynllun am eu gwireddu. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys :

- Potensial ar gyfer ystod o ddefnydd cymunedol
- Darpariaeth cyfleusterau addysg ag hyfforddiant
- Hyrwyddo, annog a chefnogi defnydd o'r iaith Gymraeg a diwylliant lleol
- Uchafu'r budd economaidd a chryfhau'r cysylltiadau gyda thref Pwllheli

Mae Cyngor Gwynedd yn awyddus i glywed eich barn am gyfleoedd eraill ar gyfer y prosiect a'r wahanol fathau o ddefnydd cymunedol allai gael eu cynnig gan adnodd o'r fath. Cwblhewch y ffurflen adborth os gwelwch yn dda. Bydd eich barn yn cael eu ystyried ac o gymorth yn natblygiad y cysyniad ffafriedig.

Camau Nesaf yr Astudiaeth

Yn dilyn cadarnhau manylion yr opsiwn ffafredig, bydd agweddau o'r gwaith dilynol sydd i'w cwblhau yn cynnwys :

- Adnabod swyddogaethau addas a chyfleoedd ar gyfer defnydd amlbwrpas
- Adolygiad manwl o raddfa'r adeilad a'r elfennau unigol
- Paratoi canllaw dyluniad fydd yn cynnig gwybodaeth am ddeunyddiau, modelau, mas, graddfa, goleuni a chynladwyedd
- Adolygiad manwl o'r achos busnes
- Adnabod caniatadau angenrheidiol a rhaglen weithredu.

Os hoffech gyflwyno unrhyw sylwadau ar y gwaith sydd wedi ei wneud hyd yma, neu'r camau nesaf o'r astudiaeth yna cwblhewch y ffurflen adborth os gwelwch yn dda.

Camau Nesaf ar gyfer Cyngor Gwynedd

Disgwylir y bydd yr astudiaeth derfynol yn cael ei chyflwyno gan yr ymgynghorwyr yn ystod Gwanwyn 2008.

Bydd casgliadau ac argymhellion yr astudiaeth yn darparu gwybodaeth allweddol i'r Cyngor a'i bartneriaid mewn perthynas â'r cynllun, gan gynnwys manylion o'r cysyniad ffafriedig, rhaglen weithredu ac achos busnes.

Bydd angen i Gyngor Gwynedd a chyrrff unigol eraill ystyried y wybodaeth yma yn fanwl cyn y gellir gwneud unrhyw benderfyniad.